ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 4 Cyfrol 13 Hydref 2016

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

Hwyl a Sbri ar Iethrau'r Gogarth

YR HANES AR DUDALEN 9

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
11.00: YSGOL SUL YR OEDOLION **5.30:** OEDFA'R NOS

Tachwedd 6	Gweinidog
Tachwedd 13	Parch. Gareth Edwards
Tachwedd 20	Gweinidog
Tachwedd 27	Parch. Casi Jones (bore Parch. Geraint Roberts (hwyr)
Rhagfyr 4	Gweinidog: Cymun a Gwasanaeth Derbyn Ieuenctid yn y bore
Rhagfyr 11	Undebol hwyr
Rhagfyr 18	Gwasanaeth Nadolig y Plant 5.00 p.m.
Rhagfyr 25	Bore'n unig: Gweinidog
Ionawr 1	Gweinidog
Ionawr 8	Undebol hwyr
Ionawr 15	Gweinidog
Ionawr 22	Parch. Megan Williams
Ionawr 27	Parch. Gerallt Lloyd Evans

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y PYTHEFNOS

Tach. 6	Gwyn Jones
Tach. 13 a 20	Elin Walker Jones
Tach. 27	Arfon Evans
Rhagfyr 4 a 11	Gwenno Pritchard
Rhagfyr 18	Arfon Evans
Rhagfyr 25 a Ionawr 1	Cynthia Owen
Ionawr 8 a 15	Gwilym Roberts

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y DRWS

Tach. 6 a 13	Arwyn Evans
Tach. 20 a 27	Geraint Hughes
Rhagfyr 4 a 11	Eirian Howells
Rhagfyr 18 a 25	Alwyn Ll Ellis
Ionawr 1 a 8	Robat Roberts

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

Hydref 30	Griff Jones
Tachwedd 6	Sara Tudor
Tachwedd 13	Ann Roberts
Tachwedd 20	Morfydd Roberts
Tachwedd 27	Eirian Howells
Rhagfyr 4	Gwen Hughes
Rhagfyr 11	Enid Roberts
Rhagfyr 18	Eleri W. Jones
Rhagfyr 25	

Gweler yr hysbysfwrdd ar gyfer rhoddwyr mis Ionawr

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

Ahithau'n dymor y diolchgarwch cawsom ein hatgoffa unwaith eto o ba mor dda yw ein byd, ac ar yr un gwynt, pa mor wastraffus yr ydym.

Dydd Sul 16 Hydref oedd y diwrnod a ddynodwyd gan y Cenhedloedd Unedig fel 'diwrnod bwyd y byd'. Pwysleisiwyd mai un o heriau pennaf newid yn yr hinsawdd fydd sicrhau digon o fwyd i boblogaeth y ddaear, y disgwylir iddi gynyddu i 9.6 biliwn erbyn 2050.

Golyga gwneud hynny mewn modd cynaliadwy y bydd yn rhaid cynhyrchu mwy o fwyd efo llai o adnoddau ac atal gwastraff wrth gynaeafu, cadw a dosbarthu cynnyrch. Amcangyfrifir bod gwastraff bwyd ym Mhrydain yn cyfateb i saith tunnell ar gyfer pob cartref, a hynny ar adeg pan mae wyth can miliwn o bobl y byd yn dioddef o ddiffyg bwyd.

Yn yr Hen Destament ceir pwyslais neilltuol ar ffrwythlondeb y tir mewn 'gwlad sy'n llifeirio o laeth a mêl', ac ar gyfrifoldeb y rhai oedd uwchben eu digon tuag at y rhai oedd heb ddim. Dyna'r pwyslais Cristnogol hefyd, a da o beth yw bod yr wŷl ddiolchgarwch am y cynhaeaf yn ein hatgoffa ohono.

Yn ystod oedfa ddiolchgarwch y plant ym Merea Newydd eleni, ar fore Sul 2 Hydref, casglwyd nwyddau ar gyfer y Banc Bwyd i helpu pobl sy'n brin o fwyd yn ein cymdeithas, a dosbarthwyd anrhegion hefyd i aelodau hŷn yr eglwys nad ydynt bellach yn abl i ddod i'r capel.

Y mae gofal a rhannu wrth galon yr efengyl, a dyna ddylai'n hymateb fod bob amser mewn byd lle y ceir llawnder a phrinder, amryw uwchben eu digon a llawer heb ddim.

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n wael a phawb sydd mewn profedigaeth. Boed Duw yn nerth a chynhaliaeth i chi i gyd.

Yn gywir,

Elwyn Richards

LLYWYDD NEWYDD Y GYMDEITHASFA YN Y GOGLEDD

Pan gyfarfu'r Gymdeithasfa yng Nghricieth ar 12 Hydref etholwyd y Parchg Eric Jones yn Lywydd ar gyfer 2016-17. Llongyfarchwn ef yn fawr a dymunwn yn dda iddo yn ystod blwyddyn ei lywyddiaeth.

CORONI'R BRENIN YN FFAIR KILORGAN

ELERI PARRY GRIFFITHS

Yn ystod y flwyddyn daeth cyfle i ddychwelyd i'r Ynys Werdd i ymweld unwaith eto â Galway ac ardal Connemara – a hynny'n dwyn blynyddoedd fy ieuenctid yn ôl a'r adegau pryd y bûm yn crwydro efo fy rhieni mewn mannau sydd, erbyn hyn, wedi newid ac eto wedi cadw llawer o'u cyfaredd a'u swyn. Mae teithio ym mherfeddion Connemara yn dal i fod yn brofiad gwefreiddiol er i'r mulod a'r troliau ddiflannu o'r tir ac i'r tai to gwellt fynd yn llai niferus.

Ond mae'r hyn sydd gennyf dan sylw ar hyn o bryd yn deillio o sgwrs a gefais efo un o hen drigolion dinas Galway. Soniodd wrthyf am hen draddodiadau sydd wedi goroesi ac er mawr syndod i mi, cefais wybod fod y ddefod o goroni'r brenin yn Ffair Killorglin yn dal i fodoli ac i ddenu tyrfaoedd.

Tref farchnad yw Killorglin yn neheudir Iwerddon a mangre enwog a phoblogaidd yn y rhan honno o'r wlad oherwydd ffair ryfedd ac anghyffredin – Puck Fair – a gynhelid – ac yn amlwg erbyn hyn a gynhelir yno – bob blwyddyn yn gynnar ym is Awst. Pery'r ffair am dridiau a theirnos ac iddi cyrcha holl Wyddelod yr ardaloedd o amgylch. Ffair anifeiliaid yw a gwelir yno gannoedd o wartheg a defaid, o feirch ac o foch. Ond nid yr anifeiliaid hyn a wna'r ffair yn atyniad mor fawr. Eithr defod a gysylltir â'r ffair – defod coroni. Ac nid unrhyw ddyn nac unrhyw ferch a goronir chwaith. Ni ŵyr neb yn iawn pa mor hen yw'r arferiad hwn na beth yw ystyr y seremoni baganaidd.. Ychydig ddyddiau cyn y ffair bydd nifer o ddynion cryfion yn dringo MacGillycuddy Reeks ac yn dal y bwch gafr mwyaf a'r gwylltaf ac yna yn ei ddwyn i lawr i'r dref. Gwisgir y bwch â gwisg o borffor a ffwr a'i arwain ar flaen gorymdaith ar hyd yr heol nes cyrraedd y sgwâr yng nghanol y dref. Wedyn coronir y bwch a'i osod ar lwyfan a dyrchefir hwnnw i uchder o ryw hanner can troedfedd ac yno yr erys Puck am

dridiau yn frenin y lle. Porthir ef â'r bresych gorau yn yr Ynys Werdd a daw'r miloedd ynghyd i dalu eu gwrogaeth iddo. Ar ddiwedd y tridiau caiff Puck ei ollwng yn ôl i'r mynyddoedd.

Flynyddoedd yn ôl, bûm yn aros efo fy rhieni ym mhentref Glengariff, rhyw ddeugain milltir o Killorglin. 'Roedd fy nhad yn benderfynol o fynd i'r ffair ond rhaid oedd gadael y car yn bell o ganol y dref oherwydd ugeiniau ar ugeiniau o garafannau sipsiwn oedd wedi eu parcio y ddwy ochr i'r ffordd yn arwain yno. 'R oedd gan y carafannau mawr lliwgar enwau fel Queen of the Highway a dywedid wrthym fod holl sipsiwn yr ynys wedi ymgasglu i'r ffair. Yn eu plith yr oedd nifer o ferched yn dweud ffortiwn – merched wedi eu gwisgo mewn gwisgoedd amryliw a thlysau mawr yn hongian wrth eu clustiau. 'Roedd y strydoedd yn orlawn ac yn fudr dan draed ond llwyddasom i ymwthio drwy'r dyrfa a'r anifeiliaid nes cyrraedd y sgwâr ac yno, ar ei orsedd uchel, fe welsom Puck yn edrych i lawr yn ddirnygus a sarrug ar y dyrfa ffôl. Chwifiai'r baneri ym mhob cyfeiriad, ac o bob tŷ a siop (oedd wedi troi'n dafarndai) dôi swn canu a dawnsio. Ymddangosai pawb fel pe wedi eu hanghofio eu hunain a'u gofalon.

Profiad i'w gofio ond syndod oedd clywed ychydig fisoedd yn ôl fod y traddodiad yn dal yn fyw.

CORNEL CODI GWÊN

GLYN LLOYD JONES

Buasai bwydo'r 5,000 yn dra gwahanol y dyddiau yma!

DYDDIAU YSGOL YN FYW ETO

MERTHYRON TOLPUDDLE 1834

Mae'n siwr fod llawer i un arall ohonoch yn cofio eich athro Hanes yn yr ysgol ers talwm yn sôn am Ferthyron Tolpuddle – er mai cyfeirio at The Tolpuddle Martyrs a wneid y pryd hynny – a'r hanes am y chwech ohonynt yn cael eu dedfrydu i saith mlynedd o alltudiaeth yn Awstralia. Rwy'n cyfaddef, er cywilydd i mi, nad wyf wedi meddwl am eu safiad na'u dewrder ers blynyddoedd lawer. Tan y mis Medi hwn.

Pan awgrymodd Meira yr hoffai dreulio gwyliau yn Dorset yn neheudir Lloegr manteisiais ar y cyfle yn syth. Oni chaem gyfle i ddod i adnabod gwlad hudolus Thomas Hardy, ymgyfarwyddo o'r newydd â rhai o'i nofelau, a dod i adnabod y cerddi y bu i fy nhad eu cyfieithu i'r Gymraeg yn ail ddegawd y ganrif o'r blaen? A chawn i hefyd ddysgu mwy am gerddi meistrolgar y bardd a'r ieithydd galluog o Dorset, William Barnes, yr athrylith addfwyn a gynhwysai Gymraeg ymhlith y trigain a mwy o ieithoedd y bu'n eu hastudio.

AMGUEDDFA'R MERTHYRON

Gan ein bod yn beicio'r naw milltir i dref Dorchester o'n man aros, yr oedd map manwl o'r wlad yn bwysig i ni. Wrth ei astudio dyma ganfod pentref Tolpuddle yn ein cyffiniau. A rhaid oedd mynd yno ac ymweld ag Amgueddfa'r Merthyron. Ar gyfer dathlu canmlwyddiant gweithred rymus a hanesyddol y chwe

merthyr, adeiladodd Cyngres yr Undebau Llafur yn 1934 res o chwe bwthyn syml. Coffëir enwau'r chwe gwron yn enwau'r tai a ddefnyddir heddiw yn gartrefi i weithwyr amaethyddol sydd wedi ymddeol. Ar fin y ffordd o'u blaen, cynlluniwyd yn 2000 gofeb drawiadol o garreg Portland gan y cerflunydd Thompson Dagnall.

DYLANWAD ROBERT OWEN

Y mae'r hyn a ddigwyddodd yn Tolpuddle yn 1834 o bwys enfawr yn hanes hawliau gweithwyr ymhobman. Bach iawn oedd cyflogau gweision ffermydd yn y cyfnod ac erbyn tridegau'r ganrif bu gostyngiad yn y cyflogau o naw swllt i wyth ac yna i saith a bygythid gostyngiad pellach i chwe swllt. Datblygodd teimladau ffyrnig yn ardal Tolpuddle rhwng yr ysweiniaid cyfoethog a'r gweithwyr tlawd. Cefnogai'r Eglwys Sefydliadol y da eu byd. Cynyddai anniddigrwydd ymysg y gweithwyr. Daethant i glywed am syniadau arweinwyr megis y Cymro o'r

Drenewydd, Robert Owen, ac am sefydlu undebau llafur i ofalu am fuddiannau'r gweithwyr mewn ardaloedd diwydiannol. Dylanwad pwysig arall wrth i'r gweithwyr wrthwynebu'r annhegwch a'r anghyfiawnder oedd twf cyson a sicr mudiad crefyddol newydd a arweiniodd at fath o ddiwygiad gyda'r Methodistiaid Wesleaidd yn arwain.

DYLANWAD CAPEL

Yr oedd pedwar o leiaf o'r merthyron yn gapelwyr brwd a dau yn sicr yn bregethwyr cynorthwyol dawnus a dylanwadol. Ysgrifennodd un ohonynt, George Loveless, yn dreiddgar am brofiadau'r merthyron yn *The Victims of Whiggery* a *The Church Shown Up.* Yn naturiol yn y cyfnod cythruddwyd yr ysweiniaid a'r bobl fawr. Daethpwyd â chyhuddiadau annheg yn erbyn y chwech – George Loveless, ei frawd James Loveless, Thomas Sandfield a'i fab John Standfield, James Brine a James Hammett. Ar ôl deuddydd o wrandawiad

dedfrydwyd y chwech i saith mlynedd o alltudiaeth yn Awstralia. Wrth adael y llys taflodd George Loveless bapur i'r dyrfa ac arno ddau bennill y daeth yn arferiad eu canu yn yr ymgyrchoedd i ryddhau'r deuddeg.

Dyma'r geiriau :

God is our Guide! From field,from wave,
From plough, from anvil and from loom,
We come, our country's rights to save,
And speak the tyrant faction's doom;
We raise the watchword 'Liberty'
We will, we will, we will be free!

God is our Guide! No swords we draw,
We kindle not war's battle fires,
By reason, union, justice, law,
We claim the birthright of our sires;
We raise the watchword 'Liberty'
We will, we will, we will be free!

Bu ymateb ffyrnig i annhegwch y ddedfryd ymhell y tu draw i wlad heddychlon, amaethyddol Dorset. Trefnwyd gorymdeithiau i brotestio. Yn Ebrill 1834, ymgasglodd dros 30,000 o bobl yn Llundain a chafwyd gorymdaith heddychlon dan arweiniad Robert Owen ac eraill i Whitehall. Cyflwynwyd petisiwn i'r Ysgrifennydd Cartref ond fe'i gwrthodwyd. Casglwyd dros 800,00 o enwau rhai a fynnai y dylid rhyddhau'r chwech. Ym Mehefin 1835, cynigiodd yr Ysgrifennydd Cartref newydd bardwn amodol iddynt ond ni fynnai'r protestwyr hyn. Bu mwy o drafod gwleidyddol ac ar Fawrth 14 eg 1836 enillwyd pardwn llwyr .

Pan ofynnwyd i'r chwech cyn eu dedfrydu a ddymunent ddatgan rhywbeth, cyflwynodd George Loveless, y pregethwr cynorthwyol Wesleaidd dawnus a galluog y cyfeiriwyd ato uchod, bapur i'r barnwr a'r geiriau a ganlyn wedi'u hysgrifennu arno:

Os hoffech chi ymateb i'r erthygl yma, neu os oes gennych ymateb i unrhyw gynnwys arall yn Ichthus, yna rhowch inc ar bapur neu fys ar y sgrin; a'i yrru i:
4 Goleufryn, Penrhosgarnedd LL57 2LY
neu gdeiniol@hotmail.com

F'Arglwydd, os bu i ni dorri unrhyw gyfraith, nid o fwriad y gwnaethom hynny; ni wnaethom ddrwg i enw da, i gymeriad, i berson nac i eiddo unrhyw berson; yr oeddem yn uno i'n cadw ein hunain, ein gwragedd, ein plant, rhag byw mewn cyflwr gwarthus a rhag newyn. Heriwn unrhyw ddyn, neu nifer o ddynion, i brofi ein bod wedi gweithredu, neu wedi bwriadu gweithredu, yn groes i'r gosodiad uchod.

Yn ddamweiniol y trawodd Meira a minnau ar bentref Tolpuddle yn swydd Dorset ym mis Medi. Wrth ddwyn i gof eto safiad dewr y chwe merthyr daeth gwersi hanes y gorffennol yn fyw iawn i ni.

OEDFA DDIOLCHGARWCH DEULUOL

Ar 2 Hydref cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch deuluol, dan arweiniad ein Gweinidog a gyda rhai o'r plant a'u rhieni ac ambell un o athrawon yr ysgol Sul yn cymryd rhan. Gan agor gyda darlleniad o ddameg yr heuwr, roedd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar gymell pawb i ddiolch am fwyd a chynhaliaeth, am grefft a thechnoleg, ac am y Beibl ac efengyl Iesu. Cawsom ein hatgoffa fel y mae yna gadwyn o elfennau y tu ôl i bob pryd bwyd y byddwn yn ei fwyta neu bob dilledyn y byddwn yn ei wisgo. Mae'r gadwyn yn cynnwys llu o wahanol weithwyr a nifer o wahanol beiriannau neu dechnolegau a'r rheini hefyd wedi'u creu gan ddyn, drwy'r gallu rhyfeddol a roddwyd iddo gan Dduw. Atgoffwyd ni hefyd pa mor bwysig yw rhannu popeth sydd gennym ag eraill yn hytrach na'i gadw i ni'n hunain. Yn ôl ein harfer ers ambell flwyddyn bellach, mae'r rhoddion yn cael eu rhannu rhwng yr henoed a'r rhai sy'n gaeth i'w cartrefi ar un llaw, a Bocs Bwyd y capel ar y llaw arall. Cafodd y plant gyflwyniad byw a gweledol iawn gan Delyth Oswy Shaw a esboniodd, gyda chymorth delweddau wedi'u

taflunio ar y wal, fel y mae'r bwyd sy'n mynd i'r Bocs Bwyd yn cael ei rannu i bobol sy'n methu fforddio prynu bwyd ac a fyddai fel arall mewn peryg o lwgu, ac fel y mae'r cyfraniadau hyn felly'n gwneud gwahaniaeth go iawn ym mywydau'r bobl hynny.

Diolch i bawb a fu ynghlwm â'r oedfa arbennig a bendithiol hon.

Y plant â gymerodd ran yn yr Oedfa.

HWYL A SBRI AR Y LLETHRAU

Ganol Medi aeth rhai o aelodau'r Ysgol Sul i Ganolfan Sgïo Llandudno ar eu trip blynyddol. Yno ar lethrau'r Gogarth, ar ddiwrnod braf a chynnes, cafwyd hwyl fawr a diwrnod i'w gofio, gyda rhai plant yn mynd ar y tobogan ac eraill yn mentro ar y tiwbiau eira. Wedi gorffen cafodd bawb ddiod a chacen dderbyniol iawn yng nghaffi'r Ganolfan a chyn mynd adre crwydrodd rhai o'r plant ar hyd y llethrau gan weld y golygfeydd gwych a chyfarfod ambell i afr! Diwrnod da iawn a phawb wedi mwynhau.

NODYN PWYSIG

Fe fydd pump o ieuenctid yn cael eu derbyn yn gyflawn aelodau yn yr oedfa ar fore Sul 4 Rhagfyr

DEHONGLI MEDDWL PAUL

ADOLYGIAD MALDWYN THOMAS



Camp fawr iawn Elfed ap Nefydd Roberts ydi cyflwyno bywyd a syniadau yr Apostol paul mewn cyfrol o 212 o dudalennau. Y mae o'n cwmpasu cymaint yn y llyfr - ei enedigaeth, ei ddyddiau cynnar, y dyn rhyfeddol hwn na welodd o mo'r Iesu yn y cnawd, y Colosws hwn, y pregethwr a fu'n ymosod ar Gristnogion cynnar yn ardal Jeriwsalem; yr Iddew a fu'n lladd Cristnogion yn greulon, y dyn a gafodd droedigaeth ar y ffordd o'r brifddinas am Damascus, a'r pregethwr a bregethai am Iesu o Nasareth fel Meseia a Mab Duw.

Yn llyfr yr actau y mae Elfed yn cael y rhan fwyaf o'r manylion am fywyd a geiriau Paul. Mae traddodiad yn dweud bod 14 o 27 o lyfrau y Testament Newydd yn waith Paul. Mae ei ddylanwad ar y meddwl Cristnogol yn anferth, ac mae llyfr Elfed yn dangos hynny'n glir. Ychydig o wybodaeth am orffennol Paul sydd ar gael ond fe welir bod y digwyddiad ar ffordd Damascus yn greiddiol yn ei hanes. Yr oedd Paul yng nghanol lledaeniad crefydd newydd Iesu Grist yn y dwyrain canol, ac mae Athen, Corinth, Jerusalem a Rhufain yn gerrig filltir yn yr hanes hwn.

Mae Elfed Ap Nefydd Roberts yn ein cyfeirio at rai o rannau prydferthaf yn rhyddiaith Y Testament Newydd, yn ein cyfeirio at Paul, pensaer sylfaeni ein ffydd, ac at Apostol sydd yn bont angenrheidiol rhwng geiriau'r Iesu a'n bywydau brau ni.

Hanfod y cyfan yw credu yn yr atgyfodiad. Ceir cyfres o gwestiynau cyfoethog ar ddiwedd pob pennod, ac mae'r adrannau ar 'Y Bywyd Cristnogol' a'r 'Cristion yn y Gymdeithas' yn mynd â ni at hanfod ein bodolaeth.

Ffydd yn unig sydd yn dod â ni i iawn berthynas â Duw, "Wrth ddod yn un â Duw daw pobl hefyd yn un â'i gilydd".

Nid gwaith hawdd yw dehongli meddwl Paul hyd yn oed gyda chanllawiau treiddgar Elfed. "Bydd rhaid i bob athro, ac yn wir i bob aelod o ddosbarth, wneud eu gwaith cartref". Ond gobaith Elfed yw y byddwn yn canfod, "fod gan y gŵr mawr hwn bethau i'w ddweud sy'n gymorth i ni ddeall yn well rai o bynciau canolog ein Ffydd, a'r pethau sy'n berthnasol i'n bywyd a'n tystiolaeth fel eglwysi yng Nghymru heddiw".

Elfed Ap Nefydd Roberts, *Dehongli Meddwl Paul; Cyfrol o fyfyrdodau yn seiliedig ar fywyd a dysgeidiaeth Paul.* (Cyhoeddiadau'r Gair). £8.99. 2016

Y FAM TERESA

ENID ROBERTS

UN O'N HAELODAU SY'N CYFLWYNO CERDD NEWYDD O'I GWAITH EI HUN AM Y WRAIG A ADWAENIR FEL Y SANTES TERESA O CALCUTTA.

Ganwyd a magwyd Agnese Gonxha Bojaxhiu yn Macedonia - ei thad yn adeiladwr a'i mam yn eglwyswraig bybyr, gyda'r Catholigion, ac yn gwasanaethu ar gynghorau'r gymuned.

Ers yn ifanc, nod Agnese oedd bod yn genhades drwy weithio gyda'r tlawd â'r anghenus. Pan yn ddeunaw oed gadawodd ei mamwlad i ymuno â'r Chwiorydd Loreta yn Nulyn, lle'r adwaenid hi fel Mary Teresa. Oddi yno aeth i Darjeeling, yn yr India, cyn symud i fod yn athrawes hanes a daearyddiaeth mewn ysgol yn Calcutta. O fewn ychydig flynyddoedd fe'i penodwyd yn bennaeth yno.

Gwireddwyd ei breuddwyd yn 1948, gadawodd yr ysgol a sefydlu 'The Missionaries of Charity' yn slymiau Calcutta. Aeth ag amryw o athrawon a disgyblion yr ysgol gyda hi. Codwyd ysgolion, cartrefi gofal, hosbis, ysbytai a cheginau cawl - am hyn enillodd y Wobr Nobel. Gweithiai gyda Christnogion a Mwslemiaid fel ei gilydd.

Erbyn heddiw mae pedair mil o leianod mewn cant dau ddeg tri o wledydd yn mynd a'i gwaith ymlaen. Ar Fedi 4ydd eleni cynhaliodd y Pab Ffransis wasanaeth i'w chanoneiddio ym Masilica Sant Pedr, yn Rhufain.

SANTES TERESA O CALCUTTA

Dy eiddil gorff mewn abid wen,
Dy wyneb garw, rhychiog,
Ond nerth a ffydd a'th gadwo i fynd,
Mae dy enw yn fyd enwog.

Drwy weithio i Grist o ddydd i ddydd
Gwir bleser oedd Ei gwmni,
Un mor annwyl oeddyt ti
Gwelaist harddwch yn y tlodi.

Dy ddrws agorwyd led y pen,
Yn Santes lawn tosturi,
Yr hen a'r ieuanc ddaeth ynghyd,
Tithau arnynt oedd yn gweini.

Ar strydoedd llychlyd gwelsom di
Yn cynnig bwyd a diod,
Dim ots pa grefydd na pha liw,
Â Duw oedd dy gyfamod.

CASGLIAD DORCAS

Casgliad sy'n cael ei wneud pan fydd pobl ar y ffordd allan o'r capel ar ôl gwasanaeth Cymun yw Casgliad Dorcas. Mae'r arian yn mynd at wahanol achosion da. Ar hyn o bryd rydym yn casglu tuag at y Samariaid.

Bu rhai o chwiorydd y capel yn helpu gyda'r bore coffi a gynhaliwyd yn y festri, 22 Hydref i godi arian at Fugeiliaid y Stryd ym Mangor. Codwyd dros £400 yn ystod y bore.

Digon o gyfle i gael sgwrs dros baned ym more coffi Bugeiliaid y Stryd

Un wyneb cyfarwydd ymhlith cefnogwyr y bore coffi

Y sgwrs yn rhy felys i sylwi ar y camera!

APEL EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU 2017

CORWYNT CARIAD

JOHN WYNN JONES

Bydd y flwyddyn 2017 yn dwrn Eglwys Bresbyteraidd Cymru i wneud apel i helpu ardal lle mae ein cyfoedion yn dioddef. Penderfynnwyd mai y Phillipinas fyddai yn cael sylw yn yr Apel yma.

Cefais y fraint o fynd i Goleg Trefeca am benwythnos ddechrau mis Hydref i ddeall mwy am y rhan yma o'r byd a'i broblemau. Ychydig iawn a wyddwn am y Phillipinas ond gan bod tair o weithwyr Cymorth Cristnogol wedi cael cyfle i ymweld a bod yn llygad dystion roedd hwn yn gyfle euraidd i glywed eu stori.

Mae y Phillipinas yn gasgliad o 6000 o ynysoedd yn mor De China ac yn dioddef o dywydd erchyll gyda eu prif bryderon am gorwyntoedd. Mi oedd y tair weithwraig wedi sylw gymaint o gyferbyniadau oedd yn y wlad gyda y brifddinas Manilla yn dangos ardaloedd o gyfoeth mawr gefn yn gefn a thlodi enbyd. Mae llawer o'r brodorion yn byw mewn tai bregus iawn sydd yn cael eu chwalu yn rheolaidd gan y corwyntoedd. Er hyn i gyd maent yn bobol hynod o obeithiol ac yn werthfawrogol o'r gwaith sydd yn cael ei wneud gan Cymorth Cristnogol au partneriaid.

Mae ymdrechion Cymorth Cristnogol yn canolbwyntio ar helpu y trigolion i amaethu eu cnydau reis mewn ffyrdd mwy effeithiol. Maent hefyd yn dysgu y brodorion sut i ymdopi efo argyfyngau tywydd gan gynnal ymarferiadau cyson. Pan ddaw y corwynt mae y tai yn chwalu ond y prif berygl yw tannau sydd yn deillio o'r ffaith bod yna ddefnydd helaeth o lampau olew. Gan nad oes dwr na thrydan yn yr ardaloedd tlawd nid oes modd hawdd o ddiffodd y tannau ac mae hynny yn golygu llawer o ddinistr a cholli bywyd.

Yn ystod 2017 fe fyddwn yn ymdrechu i gasglu trwy amrywiol weithgareddau o gwmpas £4200 yma yn Berea Newydd. Mae hyn yn mynd i fod yn ymdrech enfawr gan gofio bod pawb yn teimlo yr esgid yn gwasgu y dyddiau yma. Mi fydd cyfleon lawer inni glywed mwy o hanes y Phillipinas gan ofyn i Anna Jane Evans o Gaernarfon, fel un o'r tair a fu yno, ddod atom i rannu ei phrofiadau.

Byddwn yn rhannu hefo chwi fel aelodau sut mae yr ymdrech yn mynd ymlaen drwy gydol y flwyddyn a gobeithio y gallwn gyrraedd y target erbyn diwedd 2017 ac o hynny helpu rhai sydd au hamgylchiadau yn wahanol iawn i ni.

SALM AC EMYN

	EMYN	SALM
Tachwedd 6	93 Siôn Steffan	24 Alys McCann
Tachwedd 13	141 Alaw Lois	33:1–5 Gwion Llywelyn
Tachwedd 20	143 Eleri Roberts	93 Tomos Lynch
Tachwedd 27	145 Meilyr Lynch	121 Trystan Rhys
Rhagfyr 4	147 Owain Gwynn	148 Iolo Evans
Rhagfyr 11	Ymarfer Gwasanaeth Nadolig	
Rhagfyr 18	Gwasanaeth Nadolig	
Ionawr 8	147 Cai Aron	148 Ifan Siôn
Ionawr 15	139 Daniel Jones	193 Ela Vaughan
Ionawr 22	349 Efa Huw	100 Siwan Huw
Ionawr 29	397 Fflur Edwards	1 Catrin Edwards

Gwyliau ysgol 1 Ionawr

Diolch yn fawr am eich cyfraniad.

Os bydd plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall, hysbyser Kathy - kathysion@btinternet.com neu 364957. Diolch.

Y DYDDIADUR

***Y SEIADAU - Y DAMHEGION.**
Defnyddir cyfrol y Parchg Elfed ap Nefydd Roberts, *Dehongli'r Damhegion* (Cyhoeddiadau'r Gair, 2008)

TACHWEDD	
3ydd	Y SEIAT*: Dameg yr Heuwr a'r Had yn Tyfu (Mth 13:1-9; Mc 4:26-29) Y Parch. Elwyn Richards
10fed, 7yh	Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Mr Geraint Tomos
17eg	Y SEIAT*: Yr Efrau Ymysg yr Ŷd (Mth 13: 24-30; 36-43) Y Parch. Eric Jones
24ain	Y SEIAT*: Y Trysor Cudd a'r Perl Gwerthfawr (Mth 13:44-46) Y Dr Meirion Davies
RHAGFYR	
1af	Y SEIAT*: Y Gwesteion a'r Wledd Fawr (Lc 14: 7-24) Y Parchg Alwyn Roberts
8fed, 7yh	Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Triawd Canig
IONAWR	
12ed, 7yh	Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Y Barnwr Niclas Parry

COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA AR Y GWEFANNAU!

www.gofalaethbangor.org / www.henaduriaetharfon.org

PRIODAS FFLUR A LIAM

Priododd Fflur Ellis a Liam Hogan ym Merea Newydd ar 25 Mehefin. Mae Fflur yn ferch i Mr Alwyn a Mrs Alison Ellis, Tregarth, a bydd y cwpwl yn ymgartrefu yn y Gaerwen. Ein dymuniadau gorau iddynt.

CIC BANG YN MYND O NERTH I NERTH

Mae Cic Bang wedi ailgychwyn, ac mae nifer y plant sy'n dod draw i fwynhau'r gweithgareddau yn agos at ugain erbyn hyn, mwy nag erioed o'r blaen. Rydym yn ddiolchgar iawn i Mr Arfon Evans a Ms Dilwen Jones am roi o'u hamser i gynnal y clwb.